Estyniad i Oes Fferm Wynt Ffynnon Oer
Crynodeb Annhechnegol

nadara

ISEP EIA QUALITY MARK

natural power

Cynnwys

1.	CYFLWYNIAD	1
2.	DULL A CHWMPAS YR AEA	2
3.	TROSOLWG O'R FFARM WYNT WEITHREDOL	4
4.	BUDDION YR ESTYNIAD OES ARFAETHEDIG	5
5.	POLISI YNNI A PHOLISI CYNLLUNIO	6
6.	MATERION ERAILL	7
7.	ASESIADAU AMGYLCHEDDOL	9
8.	CASGLIAD	11
FFIGURAU		13

Geirfa

Term	Diffiniad
Adran 73	Adran 73 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd). Cais o dan Adran 73 yw cais i ddileu neu amrywio amodau cynllunio sydd ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio blaenorol.
Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA)	Mae AEA yn ffordd o gynnal asesiad systematig o'r effeithiau amgylcheddol arwyddocaol tebygol yn sgil datblygiad.
Atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol (DA)	Dogfen atodol i'r DA gwreiddiol sy'n rhoi gwybodaeth amgylcheddol ychwanegol wedi'i diweddaru.
Datganiad Amgylcheddol (DA)	Dogfen sy'n adrodd ar ganfyddiadau'r AEA ac a luniwyd yn unol â Rheoliadau AEA.
Estyniad Oes Arfaethedig	Estyniad oes arfaethedig Fferm Wynt Ffynnon Oer iddi barhau i weithredu am 10 mlynedd arall.
Ffiniau'r safle	Y tir sydd wedi'i feddiannu gan Fferm Wynt Ffynnon Oer.
Gwaelodlin	Yr amodau presennol yr asesir effeithiau estyniad oes y fferm wynt yn eu herbyn.
Rheoliadau AEA	Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu'r Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017 (fel y'u diwygiwyd).
Ymgeisydd	Ffynnon Oer Windfarm Limited

Talfyriadau

Talfyriad	Diffiniad
AEA	Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA)
CBSCNPT	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
CCC	Y Pwyllgor Newid Hinsawdd
CIC	Cwmni buddiant cymunedol
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
DA	Datganiad Amgylcheddol
ESAS	Adar Môr Ewropeaidd ar y Môr
GHG	Nwyon tŷ gwydr
GW	Gigawat
GWh	Gigawat yr awr
km	Cilometr
LDP	Cynllun Datblygu Lleol
LVIA	Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd ac Effaith Weledol
m	metr
MW	Megawat
MWh	Megawat yr awr
NTS	Crynodeb Annhechnegol
PAA	Ardal a Aseswyd Ymlaen Llaw
PPW	Polisi Cynllunio Cymru
PRoW	Hawl Tramwy Cyhoeddus
RLDP	Cynllun Datblygu Lleol Newydd
SIP	Cynllun Integredig Sengl
TAN	Nodyn Cynghori Technegol
TCPA	Deddf Cynllunio Gwlad a Thref

1. CYFLWYNIAD

1.1 Cefndir

1.1.1 Mae'r Crynodeb Annhechnegol (NTS) hwn yn crynhoi prif ganfyddiadau'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA/EIA) a gyflwynwyd fel atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol (DA), a hynny er mwyn cefnogi cais a wneir drwy Adran 73 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i ymestyn oes weithredol Fferm Wynt Ffynnon Oer.

1.1.2 Mae Fferm Wynt Ffynnon Oer yn fferm wynt weithredol sydd wedi'i lleoli rhwng Dyffryn Afan a Dyffryn Nedd, ac mae'n cynnwys 16 tyrbin dau Megawat (MW), sydd â chyfanswm capasiti gosodedig o 32 MW. Mae Fferm Wynt Ffynnon Oer yn cynhyrchu tua 87.7 gigawat/awr (GWh) o drydan y flwyddyn (yn seiliedig ar fethodoleg RenewableUK), sy'n ddigon i bweru defnydd blynyddol cyfartalog tua 26,404 o gartrefi.[1]

1.1.3 Mae Fferm Wynt Ffynnon Oer wedi'i lleoli tua 2 km i'r gorllewin o Glyncorrwg, gan fod yn llwyr o fewn awdurdodaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (CBSCNPT). Dangosir lleoliad y fferm wynt yn Ffigur 1.1: Lleoliad y Safle, sydd i'w weld ar ddiwedd y Crynodeb Annhechnegol hwn. Mae Ffigur 1.2: Cynllun y Safle yn dangos ffiniau'r safle a chynllun seilwaith Fferm Wynt Ffynnon Oer.

1.1.4 Yn 2002, lluniwyd AEA ar gyfer Fferm Wynt Ffynnon Oer fel rhan o gais am ganiatâd cynllunio i CBSCNPT (cyfeirnod y cais cynllunio yw P2002/1322). Gellir dod o hyd i'r DA gwreiddiol a gyflwynwyd ar gyfer y cais yng Nghyfrol 1, Atodiad A1.2: Adroddiad Cwmpasu, Barn Cwmpasu ac Ymgynghoriad Ffynnon Oer yn Atodiad y DA.

1.1.5 Rhoddodd CBSCNPT ganiatâd ar gyfer Fferm Wynt Ffynnon Oer ar 27 Mai 2003, yn amodol ar nifer o amodau, gan gynnwys Amod 6 sy'n cyfyngu'r oes weithredol i 20 mlynedd (gellir dod o hyd i gopi o'r hysbysiad o benderfyniad

[1] Wedi'i gyfrifo o ffigurau defnydd domestig cyfartalog a ddarperir ar wefan Renewables UK: https://www.renewableuk.com/energypulse/ukwed/ [Aethpwyd iddo 26 Chwefror 2026].

Mae'r cyfrifiadau fel a ganlyn:

Cyfanswm ynni a gynhyrchir = 32 MW (capasiti gosodedig) x 0.313 (ffactor llwyth "pob gwynt") x 8,760 (oriau'r flwyddyn) = 87.7 GWh

Cartrefi wedi'u pweru = cyfanswm allbwn ynni o 87.7 GWh / 3.323MWh (defnydd blynyddol domestig cyfartalog Prydain Fawr) = 26,404 o gartrefi. Sylwer bod y ffigur ar gyfer defnydd blynyddol domestig cyfartalog Prydain Fawr yn seiliedig ar y ffigurau mwyaf cyfredol sydd ar gael (Rhagfyr 2025).

yng Nghyfrol 1, Atodiad A1.1: Cymeradwyo'r cais cynllunio gydag amodau cynllunio a gydsyniwyd).

1.1.6 Daeth Fferm Wynt Ffynnon Oer yn gwbl weithredol ar 31 Gorffennaf 2006 ac mae wedi parhau i weithredu ers y dyddiad hwnnw. Mae'r caniatâd presennol yn dod i ben ar 31 Gorffennaf 2026 (yn unol ag Amod 6 o'r caniatâd presennol). Mae'r Ymgeisydd yn gofyn am ymestyn oes weithredol Fferm Wynt Ffynnon Oer am 10 mlynedd arall, er mwyn galluogi gweithrediadau i barhau tan 31 Gorffennaf 2036 (y cyfeirir ato fel Estyniad Oes Arfaethedig). Ni fyddai'r Estyniad Oes Arfaethedig yn arwain at unrhyw newidiadau arwyddocaol i'r fferm wynt weithredol.

1.2 Yr Ymgeisydd

1.2.1 Mae'r safle dan reolaeth ac yn eiddo i Ffynnon Oer Windfarm Limited (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel 'yr Ymgeisydd'), ac mae'n is-gwmni sy'n eiddo llwyr i Nadara Limited (Nadara). Ffurfiwyd Nadara ym mis Ionawr 2024 trwy uno Ventient Energy a Renantis. Mae Nadara yn dylunio, adeiladu a rheoli gweithfeydd pŵer o ffynonellau ynni adnewyddadwy sydd â chapasiti gosodedig o fwy na 4.2 gigawat (GW) ar draws 200 o weithfeydd yn fyd-eang. Mae cwmnïau Nadara wedi bod yn gweithredu yn y DU ers 2002 gyda swyddfeydd yn Inverness, Caeredin a Llundain, ac ar hyn o bryd maent yn gweithredu 45 o ffermydd gwynt ar y tir yn y DU.

1.3 Ymgynghorydd yr AEA

1.3.1. Penodwyd Natural Power Consultants Limited (Natural Power) i gydlynu a llunio'r Atodiad hwn i'r DA, ynghyd â'r ddogfennaeth gysylltiedig i Asesu'r Effaith Amgylcheddol, ac mae wedi bod yn gweithio ar y prosiect ers 2024.

1.3.2. Mae gan Natural Power dros 30 mlynedd o brofiad o lunio a rheoli Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol, yn ogystal â pharatoi a chyflwyno ceisiadau cynllunio. Mae'n aelod corfforaethol o Sefydliad Gweithwyr Proffesiynol Cynaliadwyedd ac Amgylcheddol (a elwid gynt yn Sefydliad Rheoli Amgylcheddol).

2. DULL A CHWMPAS YR AEA

2.1.1 Mae proses yr AEA yn defnyddio dull systematig sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth fynd ati i werthuso a dehongli effeithiau tebygol ac effeithiau dilynol yr Estyniad Oes Arfaethedig ar dderbynyddion ffisegol, biolegol a dynol. Mae Atodiad y DA wedi'i lunio yn unol â Rheoliadau Asesu'r Effaith Amgylcheddol sy'n nodi'r gofynion cyfreithiol ar gyfer y broses hon.

2.1.2 Cyhoeddwyd adroddiad cwmpasu ar 12 Awst 2025 i CBSCNPT a chyhoeddwyd barn gwmpasu gan CBSCNPT ar 14 Hydref 2025, gan arwain at y cwmpas a gyflwynwyd yn yr Atodiad i'r DA. Mae'r adroddiad cwmpasu llawn, y farn gwmpasu a gohebiaeth cyn-ymgeisio berthnasol arall oll i'w gweld yn Atodiad A1.2 o Gyfrol 1 yr Atodiad i'r DA.

2.1.3 O ganlyniad i'r ymgynghoriad cwmpasu, mae nifer o bynciau wedi'u hepgor o'r Atodiad i'r DA, gan arwain at asesiad cymesur rhwng popeth, sef mai dim ond yr asesiadau hynny ag effeithiau arwyddocaol posibl sydd wedi'u cynnwys.

2.1.4 Mae'r asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol canlynol a'r gofyniad i gael adrannau pwnc ar wahân wedi'u hepgor o'r Atodiad i'r DA, gyda chytundeb CBSCNPT:

- Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd ac Effaith Weledol (LVIA);*
- Coedyddiaeth;
- Traffig a chludiant;
- Ansawdd Aer;
- Sŵn a Dirgrynu;*
- Damweiniau a Digwyddiadau Mawr a Risg i Iechyd Pobl;*
- Treftadaeth Ddiwylliannol;
- Geoamgylcheddol;
- Tir Amaethyddol ac Ansawdd Pridd;
- Hydroleg, Hydrogeoleg a Daeareg;
- Economeg Gymdeithasol;
- Newid yn yr hinsawdd;*
- Gwastraff.

* Yn dynodi pynciau y gofynnwyd am wybodaeth ychwanegol amdanynt gan CBSCNPT, ond nid AEA llawn. Darperir y wybodaeth ychwanegol hon yn isadran 1.15 o'r Atodiad i'r DA ac mae'n cynnwys:

- <u>LVIA - Gwybodaeth yn ymwneud ag effeithiau cronnus:</u> mae Adran 1.15: Effeithiau Cronnus yn dangos bod cynlluniau ffermydd gwynt (rhai gweithredol, rhai wedi'u caniatáu neu rai sydd wrthi'n cael eu cynllunio ar hyn o bryd), sydd â thyrbinau o fewn 10 km i'r tyrbin Ffynnon Oer agosaf, wedi ystyried bod Fferm Wynt Ffynnon Oer yn cael ei datgomisiynu yn eu Datganiadau Amgylcheddol hwy – hynny yw, eu bod i gyd yn ystyried Ffynnon Oer yn nodwedd barhaol o'r dirwedd yn ystod proses yr AEA.
- <u>Sŵn a Dirgryniad – datganiad sy'n dangos bod y tyrbinau yn dal i fod o fewn y terfynau sŵn derbyniol, o ran allbynnau sŵn oherwydd yr amser</u>

sydd wedi mynd heibio ers eu gosod: mae'r datganiad hwn i'w weld yn Atodiad A1.3 ac mae'n cadarnhau y gall y tyrbinau gwynt barhau i fod o fewn y terfynau sŵn perthnasol.

2.1.5 Trafodir y wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani ar gyfer Damweiniau a Digwyddiadau Mawr a Risg i Iechyd Dynol; a Newid Hinsawdd ym mharagraffau 6.1.7 a 6.1.9 isod.

2.1.6 Mae Ecoleg ac Adareg wedi'u cynnwys yn yr Atodiad i'r DA.

3. TROSOLWG O'R FFARM WYNT WEITHREDOL

3.1.1 Mae'r ardal sydd o fewn ffiniau safle Fferm Wynt Ffynnon Oer yn bennaf yn rhostir a glaswelltir pori garw ac agored, gan fod ag ardaloedd o brysgwydd a dau gwrs dŵr, sef llednentydd Afon Afan, yn rhedeg o'r gogledd i'r de yn rhan ddeheuol y safle. Mae planhigfa gonwydd fasnachol yn ffinio â ffin y safle i'r dwyrain a'r gorllewin. Mae mynediad i'r fferm wynt trwy lwybr coedwigaeth 13 km trwy dir Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n arwain oddi ar Ffordd Rhigos (A4061) yng nghyfeirnod grid SN 92873 04391.

3.1.2 Mae Tabl 3.1 yn cynnwys y cyfeirnodau grid dwyreiniol a gogleddol ar gyfer y 16 tyrbin gweithredol (a fyddai'n aros yr un fath drwy'r estyniad oes), a seilwaith allweddol arall. Mae pob tyrbin yn dyrbin Repower MM70 2 MW, gydag uchder i flaen y llafnau yn 93 m, ac uchder y tŵr yn 58 m.

3.1.3 Mae seilwaith arall sy'n gysylltiedig â Fferm Wynt Ffynnon Oer yn cynnwys sylfeini tyrbin concrit, lloriau caled y tyrbinau, llwybrau mynediad a cheblau.

Tabl 3.1: Lleoliadau prif seilwaith Fferm Wynt Ffynnon Oer

Rhif Tyrbin	Dwyreiniol	Gogleddol
1	284445	199516
2	284635	199396
3	284294	199247
4	284804	198587
5	284113	198637
6	284732	198813
7	284587	198979
8	284475	198435

Rhif Tyrbin	Dwyreiniol	Gogleddol
9	284827	198339
10	284010	198143
11	284390	198639
12	284900	199302
13	285051	198998
14	285116	199234
15	284320	198983
16	284362	198084
Mast Met	284228	198553
Is-orsaf*	284870	198384
Mynedfa i'r fferm wynt*	285042	199417

* Yn dynodi cyfesurynnau canolbwynt bras

Ffynhonnell: Nadara

3.1.4 Ni fyddai'r Estyniad Oes Arfaethedig yn arwain at unrhyw newidiadau arwyddocaol i seilwaith y fferm wynt weithredol.

3.1.5 Bydd datgomisiynu Fferm Wynt Ffynnon Oer yn cael sylw ar ddiwedd ei hoes weithredol 30 mlynedd mewn Cynllun Datgomisiynu, a byddai'r Cynllun hwnnw'n bodloni'r amodau cynllunio perthnasol (6 ac 16).

4. BUDDION YR ESTYNIAD OES ARFAETHEDIG

4.1.1 Drwy barhau i gyflenwi trydan adnewyddadwy i oddeutu 26,4041[1] o gartrefi bob blwyddyn, byddai ymestyn oes weithredol Fferm Wynt Ffynnon Oer yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyrraedd targedau cenedlaethol o ran ynni, datgarboneiddio a newid hinsawdd. Ystyrir polisi a deddfwriaeth newid hinsawdd yn fanylach yn is-adran 5 y Crynodeb Annhechnegol hwn.

4.1.2 Ymhellach, byddai'r Estyniad Oes Arfaethedig yn parhau ac yn cynyddu cyfraniad economaidd-gymdeithasol lleol Fferm Wynt Ffynnon Oer am 10 mlynedd arall. Mae'r cyfraniadau hyn yn cynnwys trethi busnes cysylltiedig y byddai'r Ymgeisydd yn parhau i'w talu, yn ogystal â'r contractau a'r swyddi cynnal a chadw a gweithredol sy'n gysylltiedig â Fferm Wynt Ffynnon Oer.

4.1.3 Mae cronfa budd cymunedol Fferm Wynt Ffynnon Oer wedi cefnogi ystod eang o brosiectau ers 2006, gan gynnwys prosiectau yn ymwneud â chwaraeon, ieuenctid, teuluoedd a phensiynwyr, yn ogystal â banciau bwyd, mannau cynnes a phrosiectau cymunedol eraill. Byddai'r gronfa budd cymunedol yn parhau drwy gydol y cyfnod gweithredu estynedig arfaethedig. Roedd swm y gronfa budd cymunedol a dalwyd yn 2025 (gan gynnwys ffi weinyddu o 10%) yn cyfateb i £2,029.66 fesul MW wedi'i osod (cyfanswm o £64,949.10 ar gyfer y flwyddyn honno). O dan y cytundeb presennol, bydd y gronfa budd cymunedol yn parhau i olrhain chwyddiant tan fis Gorffennaf 2026. Mae'r Ymgeisydd wedi cynnig cynyddu'r gronfa budd cymunedol 25% yn ystod blwyddyn gyntaf y cyfnod estyniad 10 mlynedd, gan gynyddu'n flynyddol wedi hynny yn unol â chwyddiant.

5. POLISI YNNI A PHOLISI CYNLLUNIO

5.1.1 Mae Is-adran 1.12: Polisi Ynni a Pholisi Cynllunio Adran 1 o Atodiad y DA (Cyfrol 1) yn tynnu sylw at y polisïau allweddol ar lefel y DU, lefel Cymru a lefel leol sy'n ymwneud ag ynni adnewyddadwy a chynllunio sy'n berthnasol i'r Estyniad Oes Arfaethedig. Mae hefyd yn nodi'r corff sylweddol a chynyddol o bolisïau a deddfwriaeth sy'n bodoli ynghylch yr angen dybryd i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, a rôl cynhyrchu ynni adnewyddadwy wrth helpu llywodraethau Cymru a'r DU i gyrraedd eu targedau sero net priodol.

5.1.2 O ran yr Estyniad Oes Arfaethedig, dyma'r polisïau allweddol:

- Polisi Cynllunio Cymru (PPW) 12;[2]
- Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040;[3]
- Cynllun Datblygu Lleol (LDP) Castell-nedd Port Talbot 2011-2026.[4]

5.1.3 Byddai cydsynio i'r Estyniad Oes Arfaethedig, yn enwedig yng ngoleuni'r ffaith na fyddai unrhyw newidiadau ffisegol yn cael eu gwneud i'r cynllun gweithredol, yn caniatáu i Fferm Wynt Ffynnon Oer gyfrannu at dargedau ynni adnewyddadwy yn genedlaethol ac yn lleol.

[2] Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-07/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-12.pdf [Aethpwyd iddo 26 Chwefror 2026]

[3] Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/cymrur-dyfodol-y-cynllun-cenedlaethol-2040 [Aethpwyd iddo 26 Chwefror 2026]

[4] Ar gael yn: https://www.npt.gov.uk/cy/cynllunio-a-rheoli-adeiladu/polisi-cynllunio/cdll-a-fabwysiadwyd-2011-2026/ [Aethpwyd iddo 26 Chwefror 2026]

6. MATERION ERAILL

6.1.1 Mae Adran 1 o Atodiad y DA yn mynd i'r afael â nifer o faterion sydd, er eu bod wedi'u hepgor o'r AEA, yn ymwneud â'r Estyniad Oes Arfaethedig, ac a godwyd gan CBSCNPT yn ei Farn Gwmpasu. Mae'r rhain yn cynnwys:

Dewisiadau amgen rhesymol i'r Estyniad Oes Arfaethedig

6.1.2 Trafodir unrhyw effeithiau arwyddocaol posibl ar yr amgylchedd o ganlyniad i'r Estyniad Oes Arfaethedig yn Adran 15, a deuir i'r casgliad nad oes unrhyw effeithiau arwyddocaol ar nodweddion ecolegol nac adaregol. O gofio mai dim ond ymestyn oes y fferm wynt am 10 mlynedd arall y mae'r cais, heb unrhyw newidiadau ffisegol i'r fferm wynt, ystyrir mai dyma'r opsiwn mwyaf addas ar hyn o bryd i barhau i gyfrannu at dargedau ynni adnewyddadwy heb unrhyw oedi wrth wneud hynny.

Methodoleg yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) a chyfoesedd yr wybodaeth amgylcheddol

6.1.3 Mae Adran 15 yn yr Atodiad i'r DA yn rhoi manylion am y fethodoleg ar gyfer yr asesiad ecolegol, a'r holl arolygon ecolegol ac adaregol a gynhaliwyd fel rhan o'r asesiad, ac yn adrodd ar unrhyw gyfyngiadau i'r data, prif ragdybiaethau ac anawsterau a gafwyd wrth sefydlu'r amgylchedd gwaelodlin a chynnal yr asesiad ar effeithiau amgylcheddol.

6.1.4 Rhoddir ystyriaeth i ddeddfwriaeth berthnasol, polisïau cynllunio, a dogfennau canllawiau arfer gorau cymwys drwy gydol yr Atodiad i'r DA (Adran 1 ac Adran 15).

Effeithiau Cronnus posibl

6.1.5 Mae effeithiau cronnus yr Estyniad Oes Arfaethedig ynghyd â ffermydd gwynt eraill, rhai gweithredol, rhai wedi'u caniatáu neu sydd wrthi'n cael eu hadeiladu, ar ecoleg a nodweddion adaregol wedi'u hasesu yn Adran 15.22 o Atodiad y DA. Fel y nodir yn Adran 7 isod, ystyriwyd hefyd nad oedd effeithiau cronnus posibl ar Nodweddion Ecolegol Pwysig a nodwyd, pan oedd maint yr effaith yn uwch na dibwys, yn effeithiau arwyddocaol.

Mesurau Lliniaru

6.1.6 Mae'r asesiadau ecolegol ac adaregol wedi dod i'r casgliad nad ystyrir bod effeithiau posibl yr Estyniad Oes Arfaethedig yn rhai arwyddocaol. Bydd gweithredu mesurau lliniaru mewnol, pan fo angen, yn parhau i osgoi effeithiau posibl dros dro sy'n gysylltiedig â gwaith chynnal a chadw yn ystod cyfnod arfaethedig yr estyniad i'r gweithredu ac yn ystod y datgomisiynu. Trafodir mesurau lliniaru yn is-adran 15.19 o Atodiad y DA, heb unrhyw fesurau lliniaru ychwanegol wedi'u cynnig mewn perthynas ag ecoleg ac

adareg. Trafodir gwelliannau er budd bioamrywiaeth ar y safle yn is-adran 15.20 ac Atodiad A15.1. Cynigir cadarnhau'r gwelliannau i fioamrywiaeth ar ôl y caniatâd a hynny mewn Cynllun Rheoli Cynefinoedd (HMP) manwl wedi'i ddiweddaru yn unol ag amod cynllunio sydd ynghlwm wrth y caniatâd Adran 73.

Effeithiau ar y boblogaeth ac iechyd dynol

6.1.7 Ni chynigir unrhyw newidiadau arwyddocaol o dan y cais hwn ac, felly, ni ragwelir unrhyw effeithiau ar y boblogaeth nac ar iechyd pobl. Er enghraifft, rhagwelir y bydd lefelau traffig ar gyfer y cyfnod gweithredol sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw yn parhau yn sefydlog, ac felly nid yw'n arwain at unrhyw gynnydd mewn lefelau sŵn na risg o ddamweiniau.

Effeithiau Trawsffiniol yr Estyniad Oes Arfaethedig

6.1.8 Oherwydd natur a lleoliad Fferm Wynt Ffynnon Oer, ac oherwydd nad oes unrhyw newidiadau ffisegol wedi'u cynnig, ystyrir nad oes unrhyw botensial y bydd effeithiau trawsffiniol yn digwydd o ganlyniad i'r Estyniad Oes Arfaethedig.

Effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd

6.1.9 Cyflwynwyd newid yn yr hinsawdd (ac ansawdd aer) i Reoliadau Asesu'r Effaith Amgylcheddol ac felly ni chafodd ei gynnwys yn benodol yn y DA gwreiddiol.

6.1.10 O ran effeithiau posibl newid hinsawdd ar yr Estyniad Oes Arfaethedig, ystyrir na fydd y prif dueddiadau hinsawdd yn effeithio ar Fferm Wynt Ffynnon Oer oherwydd ei leoliad a'i fod ar dir uchel.

Cynlluniau datgomisiynu arfaethedig

6.1.11 Yn seiliedig ar farn broffesiynol Natural Power, ystyrir nad yw effeithiau posibl datgomisiynu yn rhai arwyddocaol oherwydd natur dros dro, tymor byr y cyfnod datgomisiynu a'r disgwyliad y gweithredir mesurau lliniaru mewnol yn ôl yr arfer gorau. Fel y nodwyd ym Mharagraff 3.1.5 uchod, byddai datgomisiynu Fferm Wynt Ffynnon Oer yn cael sylw ar ddiwedd ei hoes weithredol 30 mlynedd mewn Cynllun Datgomisiynu, a bydd hwnnw'n bodloni'r amodau cynllunio perthnasol (6 ac 16). Bwriadir dilyn y mesurau a'r canllawiau iechyd a diogelwch perthnasol ar gyfer y cyfnod datgomisiynu.

6.1.12 Mae effaith amgylcheddol datgomisiynu ffermydd gwynt yn bryder cynyddol i gyrff rheoleiddio ac eraill sydd â diddordeb. Fel sefydliad sydd â chynaliadwyedd wrth ei wraidd, mae Nadara wedi ymrwymo i leihau effeithiau ei weithrediadau ar yr amgylchedd. Bydd estyn oes Ffynnon Oer yn rhoi modd i Nadara ddangos buddion arferion datgomisiynu cynaliadwy ar

gyfer ffermydd gwynt ar ddiwedd eu hoes, yn ogystal â sicrhau bod cymunedau lleol, cadwyni cyflenwi a rhanddeiliaid yn elwa'n uniongyrchol o'r cyfnod hwn yng nghylch bywyd y fferm wynt.

7. ASESIADAU AMGYLCHEDDOL

7.1 Ecoleg ac Adareg

7.1.1 Cyflwynir asesiad o effeithiau posibl yr Estyniad Oes Arfaethedig ar nodweddion ecolegol ac adaregol yn Adran 15 o Atodiad y DA.

7.1.2 Nid yw'r Estyniad Oes Arfaethedig mewn unrhyw safle statudol nac anstatudol a ddynodwyd ar gyfer nodweddion ecolegol neu adaregol. Cyflwynir asesiad o effeithiau posibl ar nodweddion ecolegol ac adaregol yr Estyniad Oes Arfaethedig yn Adran 15 o Atodiad y DA.

7.1.3 Cynhaliwyd ymgynghoriad â CBSCNPT ym mis Mawrth ac Ebrill 2025 i drafod a chytuno ar gwmpas arolygon ecolegol ac adaregol ar gyfer yr Estyniad Oes Arfaethedig. Yn dilyn yr ymgynghoriad cychwynnol hwn, cyflwynwyd Adroddiad Cwmpasu a chyhoeddwyd Barn Cwmpasu gan CBSCNPT.

7.1.4 Defnyddir y safle'n bennaf ar gyfer pori defaid a gwartheg ac mae wedi'i amgylchynu gan blanhigfa gonwydd fasnachol. Fel arfer wrth ystyried datblygiad fferm wynt newydd yr asesir effeithiau posibl ar ystod o nodweddion ecolegol ac adaregol, gan gynnwys cynefinoedd, mamaliaid, amffibiaid, ymlusgiaid, infertebratau ac adar, ac ni fydd y cais am yr Estyniad Oes Arfaethedig yn arwain at unrhyw newidiadau ffisegol i'r seilwaith. Mae hyn yn golygu nad oes unrhyw newidiadau i'r tyrbinau, i'r traciau na'r seilwaith cysylltiedig, a fydd oll yn aros yn eu lle, heb unrhyw newid o ran maint na chynllun y fferm wynt. Felly, dim ond yr effeithiau posibl ar adar ac ystlumod o ganlyniad i weithrediad parhaus y tyrbinau a ystyriwyd yn Atodiad y DA. Ystyriwyd effeithiau posibl datgomisiynu hefyd yn Atodiad y DA.

7.1.5 Ers cyflwyno'r DA gwreiddiol yn 2002, cyhoeddwyd diweddariadau sylweddol i ddeddfwriaeth a chanllawiau newydd, yn benodol mewn perthynas â'r dulliau ar gyfer asesu effeithiau datblygiadau gwynt ar ystlumod ac adar, a darparu methodolegau arolygu priodol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ganllawiau'n cynnig gwybodaeth benodol mewn perthynas ag estyniadau oes. Fodd bynnag, nid oes canllawiau sy'n rhoi gwybodaeth benodol mewn perthynas ag estyniadau oes, felly cytunwyd mewn ymgynghoriad â CBSCNPT ar ddull cymesur o gynnal arolygon ac asesu gan gyfeirio at ganllawiau ar gyfer ailbweru ffermydd gwynt.

7.1.6 O ganlyniad, cynhaliwyd rhaglen o'r arolygon targedig canlynol rhwng mis Ebrill a mis Hydref 2025:

- Arolygon gweithgarwch sefydlog ystlumod gan ddefnyddio wyth synhwyrydd sbectrwm llawn am o leiaf deg noson yn ystod gwanwyn, haf a hydref 2025;
- Chwilio am gyrff marw ystlumod ac adar ger wyth tyrbin a hyn wedi'i wneud bob wythnos rhwng 1 Gorffennaf a 30 Medi 2025 (13 ymweliad i gyd);
- Treialon effeithlonrwydd y chwilio a pha mor hir mae cyrff yn para rhwng 3 Gorffennaf a 25 Medi 2025;
- Arolygon ar adar bridio rhwng Ebrill a Gorffennaf 2025 (hollgynhwysol); ac
- Arolygon ar adar ysglyfaethus bridio rhwng Ebrill a Gorffennaf 2025 (hollgynhwysol).

7.1.7 Dadansoddwyd data am weithgarwch sefydlog a charcasau ystlumod drwy ddilyn technegau dadansoddi safonol a argymhellwyd yng nghanllawiau NatureScot.[5] Nododd dadansoddiad o ddata acwstig sefydlog fod gweithgarwch ystlumod ar ei uchaf yn ystod yr haf (55.1% o ystlumod yn mynd heibio wedi'u cofnodi), ac yna'r hydref ac yna'r gwanwyn (28.3% a 16.6% o ystlumod wedi'u cofnodi yn mynd heibio yn y drefn honno). Ledled yr holl synwyryddion acwstig (i weld lleoliadau'r synwyryddion ystlumod, gweler Ffigur 15.3: Ardaloedd Chwilio Ecoleg), roedd gweithgarwch ystlumod yn sylweddol uwch yn synhwyrydd 10 na'r holl synwyryddion eraill. Gan mwyaf, y corystlum cyffredin oedd y rhywogaeth ystlumod a gofnodwyd amlaf gan fod yn 73.7% o'r holl ystlumod a hedfanodd heibio, ac yna rhywogaeth Myotis a oedd yn cyfrif am 17.2% o'r holl ystlumod a gofnodwyd yn mynd heibio.

7.1.8 Cafwyd hyd i un carcas ystlum yn Nhyrbin 3 yn ystod y chwilio am garcasau ar yr 8fed o Awst, a nodwyd ei fod yn un o rywogaeth y corystlumod (naill ai corystlum cyffredin neu soprano). Ni chofnodwyd unrhyw garcasau ystlumod eraill yn ystod y chwilio am garcasau. Gan ddefnyddio canlyniadau'r chwilio am garcasau, mae dadansoddiad marwolaethau ystlumod yn cyfrif bod yna debygolrwydd, rhwng 1 Gorffennaf a 30 Medi 2025, o 0.05 o

[5] NatureScot (2021). Bats and onshore wind turbines – survey assessment and mitigation. Ar gael yn: https://www.nature.scot/doc/bats-and-onshore-wind-turbines-survey-assessment-and-mitigation [Aethpwyd iddo 26 Chwefror 2026]

farwolaethau ystlumod bob dydd yn Fferm Wynt Ffynnon Oer. Roedd treialon effeithlonrwydd y chwilio wedi arwain at effeithlonrwydd chwiliwyr o 100%. Ar gyfartaledd, roedd carcasau wedi para am chwe diwrnod yn ystod y treialon parhad carcasau.

7.1.9 Cafwyd hyd i gyfanswm o dri charcas aderyn a thri man â phlu yn ystod y chwilio am garcasau yn ymyl tyrbinau 3, 4, 5, 10 a 15. Nodwyd mai golfanod oedd y tri charcas aderyn: un fronfraith y grug tebygol, un clochdar y cerrig ac un corhedydd coed tebygol. Nodwyd y tri man â phlu i fod yn rhywogaethau brain.

7.1.10 Cofnodwyd cyfanswm o 20 rhywogaeth adar yn ystod yr arolwg ar adar bridio, y mae 12 o'r rhain yn rhywogaethau o bryder cadwraethol. O blith y rhywogaethau o bryder cadwraethol, nodwyd tiriogaethau bridio ar gyfer chwe rhywogaeth, sef: y gog, yr ehedydd, telor yr helyg, bronfraith y grug, tinwen y cerrig a chorhedydd y waun.

7.1.11 Yn ystod yr arolygon ar adar ysglyfaethus sy'n bridio, cofnodwyd dwy rywogaeth darged, sef gwalch Marthin a'r barcud coch. Cofnodwyd un rhywogaeth eilaidd, sef bwncath, hefyd. Ni welwyd unrhyw ymddygiad bridio yn ystod yr arolygon ac ni welwyd unrhyw nythod wedi'u lleoli yn ardal yr arolwg.

7.1.12 Yn dilyn asesiad, ystyrir nad yw effeithiau posibl yr Estyniad Oes Arfaethedig ar nodweddion ecolegol ac adaregol yn arwyddocaol ac nad oes angen unrhyw fesurau lliniaru ychwanegol. Ystyriwyd hefyd nad oedd effeithiau cronnus posibl ar Nodweddion Ecolegol Pwysig a nodwyd, pan oedd maint yr effaith yn uwch na dibwys, yn effeithiau arwyddocaol.

7.1.13 Cynigir y dylid cadarnhau'r gwelliannau i fioamrywiaeth ar ôl cael caniatâd gan wneud hynny mewn Cynllun Rheoli Cynefinoedd manwl sydd wedi'i ddiweddaru yn unol ag amod cynllunio sydd ynghlwm wrth ganiatâd Adran 73.

8. CASGLIAD


8.1.1 Mae'r Atodiad hwn i'r DA yn disgrifio'r Estyniad Oes Arfaethedig ar gyfer Fferm Wynt Ffynnon Oer weithredol. Ni fyddai'r Estyniad Oes Arfaethedig yn arwain at unrhyw newidiadau ffisegol i seilwaith y fferm wynt.

8.1.2 Mewn cytundeb â CBSCNPT, mae'r Atodiad i'r DA yn canolbwyntio ar ecoleg ac adareg, gyda phob pwnc technegol arall wedi'u heithrio oherwydd na nodwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol posibl o ganlyniad i'r Estyniad Oes Arfaethedig.

8.1.3 Ystyrir nad yw effeithiau Estyniad Oes Arfaethedig ar nodweddion ecolegol ac adaregol yn arwyddocaol. Daethpwyd i'r casgliad hefyd nad oedd effeithiau cronnus posibl y Nodweddion Ecolegol Pwysig a nodwyd yn effeithiau arwyddocaol.

8.1.4 Bydd yr Estyniad Oes Arfaethedig yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyflawni nod y DU i gynyddu cynhyrchu ynni adnewyddadwy i helpu i frwydro yn erbyn yr heriau a achosir gan newid yn yr hinsawdd. Mae hefyd yn helpu i ddarparu ar gyfer amrywiaeth yn y cyflenwad, a diogelwch y cyflenwad hwnnw, a hyn yn dal i fod yn rhan o bolisïau ynni Llywodraethau'r DU a Chymru. Gall y fferm wynt barhau i weithredu'n ddiogel a chynhyrchu ynni adnewyddadwy gwyrdd am 10 mlynedd arall heb unrhyw effeithiau arwyddocaol wedi'u nodi.

FFIGURAU



Project:

Ffynnon Oer Wind Farm Life Extension, Neath Port Talbot, Wales

Title:

Figure 1.1: Site Location

Key

Site boundary

Turbine



© Crown Copyright 2025. All rights reserved. Ordnance Survey Licence AC0000808122.

Scale @ A3: 1:50,000

Coordinate System: British National Grid

0 0.5 1 1.5 2 km

N

Date: 21-07-25	Prepared by: LG	Checked by: HP

Ref: GB211705_M_007_A	Layout: 140225_16t_A

Drawing by:
The Natural Power Consultants Limited
The Green House
Forrest Estate, Dalry
Castle Douglas, DG7 3XS, UK
Tel: +44 (0)1644 430008
Fax: +44 (0)845 299 1236
Email: sayhello@naturalpower.com
www.naturalpower.com

natural power

nadara

Notes: a) Information on this plan is directly reproduced from digital and other material from different sources. Minor discrepancies may therefore occur. Where further clarification is considered necessary, this is noted through the use of text boxes on the plan itself. b) For the avoidance of doubt and unless otherwise stated: 1. this plan should be used for identification purposes only, unless otherwise stated in accompanying documentation. 2. The Natural Power Consultants Limited accepts no responsibility for the accuracy of data supplied by third parties. 3. The Natural Power Consultants Limited accepts no liability for any use which is made of this plan by a party other than its client. No third party who gains access to this plan shall have any claim against The Natural Power Consultants Limited in respect of its contents. 4. Where a line or feature recorded in the key of this plan is also shown as a line or feature by the Ordnance Survey, and that line or feature is located in a different position on the ground than shown by the Ordnance Survey, then the line or feature shall be deemed to follow the position as existing on the ground.

284000

285000

199000

198000

T1
T2
T3
T4
T5
T6
T7
T8
T9
T10
T11
T12
T13
T14
T15
T16

Project:

Ffynnon Oer Wind Farm Life Extension, Neath Port Talbot, Wales

Title:

Figure 1.2: Site Layout

Key

- Site boundary
- Turbine

© Crown Copyright 2026. All rights reserved. Ordnance Survey Licence AC0000808122.

Scale @ A3: 1:8,000

Coordinate System: British National Grid

N

0 100 200 300 400 m

Date: 24-02-26	Prepared by: DM	Checked by: HP
Ref: GB211705_M_001_D	Layout: 140225_16t_A	

Drawing by:
The Natural Power Consultants Limited
The Green House
Forrest Estate, Dalry
Castle Douglas, DG7 3XS, UK
Tel: +44 (0)1644 430008
Fax: +44 (0)845 299 1236
Email: sayhello@naturalpower.com
www.naturalpower.com

Notes: a) Information on this plan is directly reproduced from digital and other material from different sources. Minor discrepancies may therefore occur. Where further clarification is considered necessary, this is noted through the use of text boxes on the plan itself. b) For the avoidance of doubt and unless otherwise stated: 1. this plan should be used for identification purposes only, unless otherwise stated in accompanying documentation. 2. The Natural Power Consultants Limited accepts no responsibility for the accuracy of data supplied by third parties. 3. The Natural Power Consultants Limited accepts no liability for any use which is made of this plan by a party other than its client. No third party who gains access to this plan shall have any claim against The Natural Power Consultants Limited in respect of its contents. 4. Where a line or feature recorded in the key of this plan is also shown as a line or feature by the Ordnance Survey, and that line or feature is located in a different position on the ground than shown by the Ordnance Survey, then the line or feature shall be deemed to follow the position as existing on the ground.